Adroddiad cryno o waith Cyngor Ysgolion Sul am 2021

Yn dilyn blwyddyn heriol 2020 yn wyneb Covid-19, roedd gobaith gwirioneddol y byddai 2021 yn flwyddyn well, ac y byddai modd cynnal digwyddiadau ac ymweliadau unwaith eto. Wedi blwyddyn o Ysgolion Sul a chlybiau plant un ai wedi symud i lwyfan rhithiol, neu wedi dod i ben dros gyfnod y clo, a'r gallu i gyfarfod yn dal yn anodd, roeddem wedi gobeithio byddai modd ail danio llawer o weithgarwch lleol. Ond bu 2021 yn flwyddyn arall lle roedd Covid yn dal yn amlwg yn ein cymunedau, ac o'r herwydd ni chynhaliwyd y digwyddiadau cenedlaethol fel yr Urdd, y Sioe a'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn yr un modd ni lwyddwyd i gael stondinau yn y cynhadleddau enwadol na chwaith cynnal nosweithiau hyfforddiant ac adnoddau. Bellach mae llawer o ysgolion Sul lleol heb gyfarfod ers 2 flynedd, a nifer o athrawon yn dweud wrthym nad ydynt yn teimlo y gallant ail gychwyn am amryw resymau. Mae hyn felly yn her wirioneddol i eglwysi ac arweinwyr ar gyfer y blynyddoedd nesaf, wrth feddwl am ffyrdd i gyrraedd plant a theuluoedd. Bydd y realiti hyn rwyn siwr yn ffocws arbennig i'n gwaith ni ar gyfer 2022, wrth feddwl am ffyrdd i ail-gysylltu ac ail-adeiladu ar gyfer y dyfodol. Er y pryder hyn am y sefyllfa bresennol, mae'n braf adrodd i lawer o brojectau gael eu gwireddu hefyd, gyda nifer o ddeunyddiau print a llu o adnoddau digidol yn ymddangos.

Yn ystod 2021 parhawyd i gynnal llawer o weithgarwch ar lein, a diolch am y llu o adnoddau digidol a baratowyd gan nifer o fudiadau ar gyfer eu rhannu am ddim ar y we. Heb os, un o fendithion mawr y 2 flynedd diwethaf yw bod ein 5 gwefan wedi eu cryfhau'n sylweddol, a'n presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol wedi ei dyfu a'i ddatblygu. Rwy'n gobeithio erbyn hyn bod y presenoldeb digidol wedi cyrraedd man sefydlog ac yn gynaladwy, na fydd yn mynnu gormod o amser datblygu pellach wrth edrych tua'r dyfodol. Cafwyd cyfleoedd i gynnal cyfarfodydd dros Zoom, weithiau ar lefel Cwrdd Chwarter, weithiau ar lefel gofalaethol, ac weithiau rhwng arweinyddion neu athrawon ysgol Sul yn lleol. Bu cyfle hefyd i baratoi aroddiadau a chyflwyniadau, boed i Bwrw Golwg, Cristnogaeth21 neu i gynhadleddau enwadol. Er bod nifer yn teimlo'n rhwystredig ac yn ofidus am y dyfodol, ac yn poeni a fydd gweithgarwch plant ac ieuenctid yn medru cael ei ail-godi unwaith eto, gwelwyd hefyd bod yna gyfleoedd newydd lle bydd angen mynd ati i 'sefydlu gwaith newydd' wedi 2 flynedd o seibiant. Yn naturiol, rydym wedi parhau i gyflenwi archebion Cyngor Llyfrau a chwsmeriaid unigol gyda cwrier yn casglu o stepen drws y swyddfa.

Gwersi Ysgol Sul i blant

Erbyn hyn mae toreth o adnoddau ar gael am ddim ar y we, tra ar yr un pryd mae nifer o gyfresi gwerslyfrau mewn print, yn lyfrau athro a llyfrau lliw i blant ar gael. Heb os, nid oes prinder adnoddau, a her y dyfodol fydd marchnata ac annog pobl i'w defnyddio.

Gwers yr Ysgol Sul i oedolion

Erbyn hyn mae gwers yr Ysgol Sul i oedolion ar lein. Bob wythnos cyhoeddwyd gwers a ffilm bwrpasol yn cael ei gyflwyno gan Denzil John, sydd i'w gweld ar TCC. Prin yw'r dosbarthiadau sy'n cyfarfod, ac o'r herwydd ataliwyd cyhoeddi gwers ym mis Medi 2021, gan obeithio ail gychwyn yn y Gwanwyn.

Cyhoeddiadau ar y we yn unig:

Yn ystod 2021 bu i ni ryddhau llawer o adnoddau newydd ar ein tudalennau Facebook a gosod adnoddau newydd ar ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys myfyrdodau tymhorol, gweddïau, llyfrau gweithgaredd a lliwio i blant a cyfres o wersi ysgol Sul ar gyfer y cartref. Cynhyrchwyd adnodd Grawys i blant yn seiliedig ar Beibl Bach Stori Duw, llyfr myfyrdodau a lliwio Grawys a Gorsafoedd y Groes ac e-lyfr lliwio o stori'r Pasg. Ar gyfer y Nadolig paratowyd 3 cyfres o weddïau myfyrdodau a gweddïau ar gyfer oedolion ac ar gyfer teuluoedd eu rhannu gyda'i gilydd.

Cyhoeddiadau print 2021

Bu i ni lwyddo i gyhoeddi 10 cyfrol newydd yn ystod 2021, gan gynnwys 4 Beibl lliw gwahanol i blant, a dwy gyfrol sylweddol o fyfyrdodau a gweddïau o waith y diweddar Barchedig Elfed ap Nefydd Roberts.

Y Comic Beiblaidd Anferth - Beibl lliwgar i blant 7-11 oed, wedi ei ddylunio yn arddull comic *Beano*, gyda thestun gwbl wreiddiol yn y Gymraeg gan Alun Jones. Mae hon yn gyfrol rydym yn falch iawn ohoni, yn enwedig o gofio bod y dylunwyr yn dod o stabl *Marvel Comics*.
Cyhoeddwyd Medi 2021, pris £8.99.

Stori Fwya'r Byd - addasiad o gyfrol i blant 8-13 oed o Feibl yn arddull unigryw'r awdur *Tom Gates*. Cafwyd addasiad bywiog a chyfoes gan Meinir Pierce Jones, ac eto gallwn fod yn falch o gyfrol sy'n sefyll ochr yn ochr a llawer o lyfrau poblogaidd i blant o'r oed yma.
Cyhoeddwyd Medi 2021, pris £8.99.
Yn dilyn cyhoeddi'r Beibl cyfan,bu i ni hefyd gydweithio gyda Cymdeithas y Beibl i greu 2 lyfryn Nadolig a Pasg, sydd ar gael i'w prynu'n rhad er mwyn eu dosbarthu i blant.

Beibl Storïwr y Teulu - cyfrol newydd sy'n cymryd yr hanesion o Feibl Newydd y Storïwr (Agor y Llyfr), gan ychwanegu cwestiynau trafodaeth, tasgau a sgyrsiau i annog ffydd ar yr aelwyd - rhyw fath o Agor y Llyfr yn y cartref!
Cyhoeddwyd Gorffennaf 2021, pris £12.99.

Fy Meibl Lliw: cyfrol addas ar gyfer palnt 3-5 oed, sy'n Feibl o ffabrig cotwm, ac yn ddiogel ar gyfer y plant lleiaf.
Cyhoeddwyd Mawrth 2021, pris £5.99.

Y Llais, sef fersiwn gwreiddiol Gymraeg o gyfrol yn arddull y *Tabloid Bible*, wedi ei baratoi yn wreiddiol gan Huw John Hughes.
Cyhoeddwyd Mehefin 2021, pris £8.99.

Cymer fy Munudau - gweddïau Elfed: Cyfrol o holl weddïau gwreiddiol o waith Elfed ap Nefydd Roberts (dros 600), wedi eu casglu gan Trefor Lewis a'i golygu gan Aled Davies. Mae hon yn gyfrol gwbl unigryw o weddïau gwreiddiol yn y Gymraeg, a diolchwn i Elfed am oes o'u creu.
Cyhoeddwyd Medi 2021, pris £16.99.

Gwerth y funud Dawel - myfyrdodau Elfed: Casgliad gwbl wreiddiol o fyfyrdodau gan Elfed ap Nefydd Roberts, myfyrdodau sy'n pontio dros 40 mlynedd o sylwebaeth ar fywyd ein byd, wrth i Elfed ymateb i'r hyn oedd yn digwydd ar y pryd. Casglwyd y rhain gan Olaf Davies.
Cyhoeddwyd Medi 2021, pris £12.99.

Derbyn a Dilyn Iesu - deunydd dosbarth derbyn gwreiddiol, wedi ei baratoi gan Elfed ap Nefydd Roberts. 15 sesiwn hwylus ar gyfer paratoi bobl ifanc ar gyfer dod yn gyflawn aelodau mewn eglwys.
Cyhoeddwyd Medi 2021, pris £6.99.

Lansiwyd y 3 cyfrol uchod mewn cyfarfod coffa arbennig i Elfed yn Mynydd Seion, Abergele, yng nghwmni ei deulu a ffrindiau.

Dehongli Bywyd a Gwaith Esther a Jona gan Gareth Lloyd Jones - dyma'r ail yn y gyfres o bedair cyfrol o astudiaethau Beiblaidd yn canolbwyntio ar gymeriadau o'r Hen Destament.
Cyhoeddwyd Mawrth 2021, pris £8.99.

Cofio Euros gan John Pritchard (gol) - Bu Euros Wyn Jones yn weinidog, yn athro a hyfforddwr i bregethwyr a gweinidogion. Dyma gyfrol werthfawr i gofio cyfraniad sylweddol un o gymeriadau anwylaf bywyd crefyddol a diwylliannol y Gymru gyfoes. Cafwyd lansiad dros Zoom gyda 80 o bobl yn bresennol.
Cyhoeddwyd Mehefin 2021, pris £9.99.

Meddyg y galon glwyfus - Gofal am iechyd meddwl a chymwynas fawr Dr David Enoch gan Robin Gwyndaf - cyfrol o ddiolchgarwch diffuant i'r Dr David Enoch, y seiciatrydd enwog, ac i bawb sy'n estyn llaw a chalon i rannu eu cariad a'u harbenigedd.
Cyhoeddwyd Medi 2021, pris £14.99.

Cyhoeddiadau newydd ar gyfer 2022 sydd ar y gweill gennym
Bu gwaith hefyd ar ddatblygu nifer o gyfrolau newydd, gan gynnwys:

Hoff Emynau'r Cymru - cyfrol gan Rob Nicholls lle mae nifer o Gymry adnabyddus yn rhannu am eu hoff emynau.
Anelu i gyhoeddi Mehefin 2022, pris £8.99.

Dehongli Bywyd a Gwaith Moses - y drydedd yn y gyfres o esboniadau gan Gareth Lloyd Jones.
Anelu i gyhoeddi Mehefin 2022, pris £8.99.

Goreuon 'O Ddydd i Ddydd' - casgliad 365 myfyrdod allan o ddeunydd cyfres *O Ddydd i Ddydd* yn cael ei ddethol a'i olygu gan Iwan Llewelyn Jones.
Anelu i gyhoeddi Tachwedd 2022, pris £11.99.

Traciau sain Canu Clod - 2 CD yn cynnwys traciau sain i tua 30 o ganeuon o Canu Clod.
Anelu i gyhoeddi Mehefin 2022, pris £4.99 yr un.

Godly Play yn Gymraeg - gwaith ar y gweill i gyhoeddi 4 cyfrol o sgriptiau yn y cynllun Godly Play.
Anelu i gyhoeddi Medi 2022.

Tywysog Tangnefedd mewn byd o Ryfeloedd - cyfrol Adfent, sy'n cael ei baratoi gan Huw Powell Davies.
Anelu i gyhoeddi Awst 2022, pris £7.99.

60 Mlynedd o Weiniodogaethu - cyfrol yn cynnwys 60 o bregethau gan D Ben Rees, wrth iddo ddathlu trigain mlynedd yn y weinidogaeth.
Anelu i gyhoeddi Awst 2022, pris £9.99.

Geiriadur y Gair - bu'r geiriadurwr profiadol D Geraint Lewis wrthi yn brysur yn paratoi geiriadur Beiblaidd, gan ddilyn llawer o brif themau a geiriau allweddol yn y Beibl.
Anelu i gyhoeddi Awst 2022, pris £7.99.

Gair o Gysur - Rydym hefyd yn ail-lansio 2 lyfryn bugeiliol Gair o Gysur mewn Gwendid a Gair o Gysur mewn Galar mewn fformat A5.
Anelu i gyhoeddi Mai 2022, pris £0.59.

Llyfr crefftau bwyd Beiblaidd - gwerslyfr yn cynnwys 60 o rysetiau coginio yn seiliedig ar stori Feiblaidd.
Anelu i gyhoeddi Awst 2022, pris £11.99.

Llyfr gemau Beiblaidd - gwerslyfr yn cynnwys dros 200 o gemau Beiblaidd.
Anelu i gyhoeddi Awst 2022, pris £9.99.

Llyfr arbrofion gwyddoniaeth Feiblaidd i blant - cydargraffiad efo Lion sy'n cynnwys dros 60 o arbrofion gwyddonol sy'n cynnwys neges Feiblaidd.
Anelu i gyhoeddi Gwanwyn 2023, pris £11.99.

Myfyrdodau Grawys Coeden Iesu - casgliad o 40 ffilm fer, a 40 myfyrdod a gweddi yn seiliedig ar efengyl Ioan, ar gyfer cynllun myfyrdodau Grawys.
Anelu i gyhoeddi Mawrth 2022, am ddim ar y we.

Mae gwaith ar y gwefannau yn parhau, ac yn arbennig:
www.gair.cymru - adran gynhwysfawr o adnoddau ar gyfer y prif wyliau Cristnogol i'w lawrlwytho.

www.gobaith.cymru - nifer o ganeuon newydd wedi dod i law gan Arwel Ellis Jones, Arfon Jones, Rhys ac Andy Hughes, Cadi Gwyn a Linda Lockley. Mae Delyth wedi bod yn gweithio ar y testun a chysylltu gyda'r cwmniau hawlfraint i'w hawdurdodi. Tua 40 o emynau newydd wedi ymddangos ar y wefan eleni.

www.ysgolsul.com - mae hon yn cael ei diweddaru yn rheolaidd i adlewyrchu yr hyn sy'n newydd ac amserol.

www.cristnogaeth.cymru - ambell adran newydd yn cael ei greu - yn ddiweddar Calendr y Flwyddyn Gristnogol.
Teledu Cristnogol Cymru - dros 4000 o 'raglenni' wedi eu lincio i'r sianel erbyn hyn.

Cyffredinol
Cynhaliwyd ambell gyfarfod a phwyllgor ar Zoom, a diolch hefyd am y sesiwn bugeiliol gan Jennie bob chwarter. Cynhaliwyd sawl cynhadledd dros Zoom i rwydwaith gweithwyr plant CMN-CTBI, a bu i ni drefnu cynhadledd rithiol Ewropeaidd o dan nawdd ECCE, lle daeth dros 200 o weithwyr plant ar draws Ewrop ynghyd. Gwnaed gwaith hefyd ar y cofrestr risg, gan lenwi mewn effeithiau'r risg a chamau gweithredu. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Cyngor Llyfrau, ac hefyd gwneud y gwaith gweinyddol tendrau grantiau ar gyfer 2022/23. Derbyniwyd rhestr o brojectau posib ar gyfer 2022/23 gan ambell wasg, a gobeithir aelcyfle i fynychu ffeiriau llyfrau yn ystod 2022.
Christian Resources Exhibition: Er i bob cynhadledd a ffair lyfrau gael ei ohirio yn 2021, llwyddwyd i gynnal y CRE yn Esher ym mis Medi, a braf unwaith eto oedd cael cerdded y coridorau a chyfarfod ffrindie hen a newydd o'r byd cyhoeddi ac adnoddau Cristnogol.

Medalau Gee
Gan na fu yn bosib cynnal 2 gyfarfod torfol eleni, penderfynwyd cynnal nifer o gyfarfodydd lleol i gyflwyno medalau. Cyflwynwyd 21 medal Gee, a 3 medal arbennig er anrhydedd. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyflwyno yn Amlwch, Wrecsam, Llanddarog, Llanybydder, Rhydaman, Caerfyrddin a Drefach. Bu i'r Cyngor gymeradwyo 3 Medal Gee er Anrhydedd yn 2019 i 3 a wnaeth gyfraniad nodedig i weinidogaeth plant yng Nghymru, sef y Parchedigion Catrin ac Ifan Roberts a Mr Nigel Davies. Wedi 2 flynedd o oedi, braf fu cael cyflwyno'r medalau iddynt hwythau hefyd yn ystod Hydref 2021.

Roots
Bu'n gyfnod heriol a gofidus i Roots hefyd, wrth i nifer y tanysgrifwyr atal rhag adnewyddu yn ystod cyfnod y clo, ond erbyn diwedd 2021 roedd pethau yn dechrau dychwelyd i lefel gynaladwy eto, a braf yw dweud bod y tîm wrthi yn egnïol yn partatoi ar gyfer cyfnod newydd 'hybrid' o addoli. Mae'r deunyddiau Cymraeg - sef gweddïau oedolion a pob oed, taflen wythnosol i blant a dewis o emynau Cymraeg yn cael eu gosod ar y we yn wythnosol.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol
Wrth i ni ffarwelio â 2021 rydym ynghanol ton arall o amrywiolyn Omicron - ond yn hyderus y bydd pethau yn gwella yn y Gwanwyn. Felly mawr obeithiwn y bydd modd dechrau trefnu ymweliadau a gweithgareddau eto, ac y cawn gyfle i gyfarfod ein cefnogwyr wyneb yn wyneb wrth adeiladu model hybrid o fod yn eglwys a chymuned Gristnogol.

Gan ddiolch am bob cefnogaeth.
Aled Davies